# Datganiad o egwyddorion ar gyfer rheoli ymddygiad

Mae NASUWT wedi sefydlu wyth egwyddor sy'n tanategu dull effeithiol o reoli ymddygiad. Dylid ystyried yr egwyddorion hyn ochr yn ochr â chanllaw NASUWT, *Datblygu polisi rheoli ymddygiad*.

1. Dylai'r polisi ymddygiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig ganolbwyntio, fel eu prif bwrpas, ar greu a chynnal amgylchedd dysgu lle mae pob disgybl a phob aelod o staff yn cael eu parchu, lle gall pob disgybl gyflawni a llwyddo, a lle gall pob athro ac athrawes addysgu'n effeithiol.

   - *Dylai'r polisi ymddygiad gyfeirio at faterion sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, staffio a datblygu staff, diogelu, cydraddoldeb, gwrth-fwlio, ymyrryd yn gorfforol ac unrhyw ganllawiau statudol a chylchlythyrau llywodraethol sy'n berthnasol.*
   - *Dylai'r polisi ymddygiad ategu cwricwlwm sy'n addas i ateb anghenion y disgyblion i gyd.*

2. Dylid cadw pob disgybl a phob aelod o staff yn ddiogel. Dylent allu astudio, gweithio a byw heb ofni trais, brawychu, aflonyddu, cam-drin neu darfu ar wersi.

   - *Dylai ysgolion nodi'n glir nad yw ymddygiad treisgar ac ymosodol, aflonyddu, bwlio a gwneud honiadau di-sail yn dderbyniol ac na fyddent yn cael eu goddef dan unrhyw amgylchiadau. Dylai'r polisi ymddygiad fod yn berthnasol i ymddygiad o fewn ac oddi allan i'r ysgol.*
   - *Dylai ysgolion ddiogelu eu staff rhag trais a cham-drin, a dylent gefnogi aelodau o'u staff sy'n wynebu trais neu unrhyw fath o gam-drin.*
   - *Dylai'r polisi ymddygiad fod yn gysylltiedig â gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu a sicrhau lles ei staff.*

3. Dylai ysgolion sefydlu dull eglur a chyson o reoli ymddygiad.

   - *Dylai ysgolion feddu ar bolisi ymddygiad sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, a dylent sicrhau bod y staff, y disgyblion a'r rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig, ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r rheiny.*
   - *Dylai'r polisi ymddygiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig nodi pa wobrau sydd i gael eu defnyddio i annog a gwobrwyo ymddygiad da, a pha gosbau sydd i gael eu defnyddio i ymdrin ag ymddygiad gwael.*
   - *Dylai'r polisi ymddygiad fod yn berthnasol i weithredoedd y disgyblion ar safle'r ysgol ac oddi arno.*

4. Dylai pob aelod o'r staff fod â'r hawl i dderbyn hyfforddiant a chymorth priodol gyda materion sy'n ymwneud ag ymddygiad, a dylai'r rhain fod ar gael iddynt.

   - *Dylai'r holl staff dderbyn hyfforddiant yn rheolaidd, gan gynnwys hyfforddiant diweddaru, i'w galluogi i ddilyn y polisi ymddygiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig, ac i sicrhau bod y polisi a'r gweithdrefnau'n cael eu gweithredu mewn ffordd deg.*
   - *Mae adnabod problemau'n gynnar ac ymyrraeth gynnar yn elfennau hanfodol mewn rheoli ymddygiad yn llwyddiannus. Dylai ysgolion sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i'w staff yn brydlon, gan gynnwys cyngor a chefnogaeth arbenigol.*

5. **Dylai'r ysgol weithio mewn partneriaeth â'i staff, yn ogystal ag undebau llafur, y rhieni a'r disgyblion, i ddatblygu, gweithredu ac adolygu'r polisi ymddygiad.**
   - *Mae polisi ymddygiad ar ei fwyaf effeithiol pan fydd pobl yn teimlo gwir berchnogaeth ar y polisi.*
   - *Dylid annog y rhieni i gefnogi'r ysgol i gynnal safonau uchel, a dylai'r ysgol gysylltu â'r rhieni am faterion a allai fod yn effeithio ar ymddygiad eu plentyn.*
6. **Dylai polisi ymddygiad yr ysgol gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth am gydraddoldeb.**
   - *Ni ddylai'r polisi ymddygiad wahaniaethu yn erbyn disgyblion ar sail unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig, a dylai hefyd gyfrannu at hyrwyddo cydraddoldeb. Dylai ysgolion gasglu data am ymddygiad a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod eu polisi'n cael ei weithredu mewn ffordd deg a chyfartal.*
   - *Dylai'r polisi ymddygiad ddiogelu'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Dylai ysgolion fonitro unrhyw ddigwyddiadau i sicrhau nad yw eu disgyblion ac/neu aelodau o'u staff sy'n rhannu un o'r nodweddion gwarchodedig yn cael unrhyw anawsterau neilltuol.*
   - *Dylai'r polisi ymddygiad ategu gwaith yr ysgol i hybu cydlyniant cymdeithasol.*
7. **Ni ddylai'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer rheoli ymddygiad fod yn feichus nac yn rhy fiwrocratig.**
   - *Dylai'r ysgol fonitro ac adolygu effaith ei pholisi rheoli ymddygiad a'i weithdrefnau cysylltiedig ar lwyth gwaith ei staff.*
8. **Dylid rhoi'r grym i benaethiaid arfer eu barn broffesiynol yn gyfrifol wrth benderfynu a ddylid gwahardd disgyblion o'r ysgol.**
   - *Dylid cael system ac adnoddau priodol i adnabod ac ateb anghenion addysgol plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol neu blant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.*

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o gyngor ac arweiniad am faterion rheoli ymddygiad a meysydd perthynol eraill, ewch i: www.nasuwt.org.uk/advice/in-the-classroom.html.

siaradwch â ni

029 2054 6080
rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk